

Cynllun Gweithredu Amrywiaeth 2016 – 2020 – Adolygiad 2016

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu dyletswyddau S4C o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r amcanion penodol i'w gweithredu gan S4C er mwyn cyflawni'r dyletswyddau cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Dyletswydd Statudol	Amcanion	Dyddiad gweithredu	Cyfrifoldeb	Adolygu
Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf.	Adolygu Ymrwymiad i Amrywiaeth S4C yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ei gynnwys yn dal i fod yn gywir.	Adolygu'n flynyddol	Awdurdod S4C gyda chefnogaeth y Bwrdd Strategol a Rheoli a'r Grŵp Gweithredol	
	Adolygu Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth S4C yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ei gynnwys yn dal i fod yn gywir.	Adolygu'n flynyddol	Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol Rheolwr Adnoddau Dynol	Mae'r cynnwys wedi ei hadolygu Mawrth 2017
	Cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Amrywiaeth newydd ar gyfer 2016 – 2020.		Awdurdod S4C gyda chefnogaeth y Bwrdd Strategol a Rheoli a'r Grŵp Gweithredol	Mae'r Cynllun Gweithredu Amrywiaeth ar gyfer y cyfnod 2016-20 ar gael ar wefan S4C
	Pob aelod o staff i roi gwybod i'r Uned Adnoddau Dynol am unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon yn ymwneud ag unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon neu fath arall o wahaniaethu.	Parhaus	Uned Adnoddau Dynol	Mae polisi Cydraddoldeb Amrywiaeth yn cael ei roi i staff newydd yn ystod eu cyflwyniad i S4C Mae gan S4C weithdrefn cwynion mewn lle sydd

Dyletswydd Statudol	Amcanion	Dyddiad gweithredu	Cyfrifoldeb	Adolygu
				hefyd yn cael ei amlinellu yn y llawlyfr Staff
	Lle y bo'n briodol, Adnoddau Dynol i gymryd camau i ddileu unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth.	Fel y bo'r angen	Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol Adnoddau Dynol	Mae gan S4C weithdrefn cwynion mewn lle sydd hefyd yn cael ei amlinellu yn y llawlyfr Staff
Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ¹ a'r rhai hynny nad ydynt yn ei rhannu.	Cynnwys cyfrifoldeb penodol am sicrhau diwylliant cydraddoldeb yn y gweithle ym mhob swydd-ddisgrifiad priodol.	Parhaus	Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol Adnoddau Dynol	Mae S4C yn cynnwys ymrwymiad o fewn disgrifiadau swyddi penodol staff S4C sy'n sicrhau fod cydweithwyr yn cael eu trin â pharch ag urddas a'i bod yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal drwy holl agweddau'r busnes mewn cydweithrediad â pholisïau perthnasol S4C.
	Cynnwys gofyniad i bob aelod o staff gydymffurfio â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth S4C ym mhob contract cyflogaeth.	Parhaus	Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol Adnoddau Dynol	Mae S4C yn nodi ymhob cytundeb staff fod gofyn i staff gydymffurfio â'r polisïau sydd wedi eu cynnwys yn y llawlyfr staff (yn cynnwys y Polisi

¹ Mae Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol y Sector Cyhoeddus yn amddiffyn 8 nodwedd warchoddedig, sef: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Dyletswydd Statudol	Amcanion	Dyddiad gweithredu	Cyfrifoldeb	Adolygu
				Cydraddoldeb ag Amrywiaeth) Mae'r gofyniad hwn hefyd yn cael ei nodi yn llythyr cynnig swydd S4C.
	Lle y bo'n briodol, cynnwys gofyniad cytundebol yng nghytundebau S4C â darparwyr gwasanaeth sy'n mynnu bod darparwyr gwasanaeth yn ymdrin â'u staff a, lle y bo'n berthnasol, y cyhoedd, yn unol ag egwyddorion Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth S4C.	Ar unwaith ac yn barhaus	Cyfreithiol	<p>Mae pob cytundeb S4C ar gyfer gwasanaethau yn gofyn i'n darparwyr gydymffurfio ag egwyddorion Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb S4C</p> <p>Mae pob gwahoddiad i dendr a gyhoeddir gan S4C yn gofyn i dendrwyr gadarnhau os oes unrhyw ddyfarniad o wahaniaethu anghyfreithlon wedi ei wneud yn erbyn y tendrwr gan Dribiwnlys Cyflogaeth, Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth neu unrhyw lys arall neu ydy'r tendrwr wedi derbyn unrhyw gwynion a gadarnhawyd yn seiliedig ar wahaniaethu</p>

Dyletswydd Statudol	Amcanion	Dyddiad gweithredu	Cyfrifoldeb	Adolygu
				anghyfreithlon honedig
	Sicrhau bod y cytundebau comisiynu'n gosod rhwymedigaethau ar y sector cynhyrchu i ymrwymo i hyrwyddo a chynnwys egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar eu busnes a'u cynnwys.	Adolygu'r Cod Ymarfer a'r Telerau Masnach erbyn mis Medi 2016 Diwygio Cytundebau Comisiynu a Thelerau Cyffredinol erbyn mis Medi 2016	Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol Cyfreithiol Cyfarwyddwr Cynnwys	Mae pob cytundeb ar gyfer gwasanaethau yn gofyn i'n darparwyr gydymffurfio ag egwyddorion Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb S4C
	Sicrhau bod ymrwymiad S4C i ddarparu gwasanaethau mynediad a chymorth (http://www.s4c.cymru/cy/gwasanaethau-mynediad/) mewn perthynas â rhaglenni a chynnwys yn cael ei gynnal. Mae hyn yn cynnwys Gwifren Gwylwyr, gwasanaethau Mynediad, gwasanaethau i ddysgwyr Cymraeg (http://www.s4c.cymru/cy/adloniant/dal-ati/), a gwybodaeth i wylwyr a defnyddwyr.	Parhaus	Cyfarwyddwr Cynnwys Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Mae modd cysylltu â'r Wifren Gwylwyr drwy'r ffyrdd canlynol Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol craidd S4C: Drwy lythyr: Dros y ffôn: neu Dros e-bost Mae 40 pennod o'r rhaglen i ddysgwyr y Gymraeg 'Dal Ati' a 'Dal Ati - Bore Da' wedi cael eu darlledu ar Foreau Sul ac mae'r Ap 'Dal Ati' hefyd ar gael i helpu

Dyletswydd Statudol	Amcanion	Dyddiad gweithredu	Cyfrifoldeb	Adolygu
	<p>Cwrdd â thargedau Ofcom ar gyfer gofynion Gwasanaethau Mynediad</p> <ul style="list-style-type: none"> • Isdeitlo – 53% o raglenni • Disgrifiad sain – 10% o raglenni • Arwyddo – 5% o raglenni 	Adrodd bob tri mis i'r Bwrdd Strategol a Rheoli, yr Awdurdod ac Ofcom	Cyfarwyddwr Cynnwys Pwyllgor Cynnwys yr Awdurdod	<p>Dysgwyr y Gymraeg</p> <p>Yn 2016 aeth S4C yn bellach na thargedau Ofcom ar ofynion Gwasanaethau Mynediad fel a ganlyn</p> <p>Isdeitlo – 80.36%</p> <p>Sain Ddisgrifio - 10.33%</p> <p>Arwyddo - 5.17%</p>
	Adolygu holl wefannau S4C yn barhaus er mwyn sicrhau bod unrhyw safonau newydd priodol ac arfer da presennol o ran mynediad at wefannau'n cael eu hadlewyrchu yng ngwasanaethau S4C.	Parhaus	Cyfarwyddwr Cyfathrebu	<p>Aeth gwefan newydd S4C yn fyw ar 30 Ionawr 2017</p> <p>Mae S4C yn y broses o gomisiynu archwiliad o'i thudalen flaen i weld os oes unrhyw faterion hygyrchedd sydd angen sylw pellach</p>

Dyletswydd Statudol	Amcanion	Dyddiad gweithredu	Cyfrifoldeb	Adolygu
	<p>Monitro datblygiadau technegol er mwyn sicrhau bod S4C yn defnyddio'r dull/dewisiadau mwyaf perthnasol i ddarparu mynediad at ei gwasanaethau cynnwys, ei gwefannau a'i thechnoleg ddigidol.</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyfathrebu Prif Swyddog Technegol</p>	<p>Cafodd y gwasanaeth arwyddo ar sgrin ei hail-dendro yn 2016.</p> <p>Mae S4C yn darparu isdeitlau yn y Gymraeg â'r Saesneg.</p> <p>Mae S4C wedi ymchwilio a oes modd dangos isdeitlau ar fwy o blatfformau, ond nid yw nifer o'r platfformau yn caniatáu hyn.</p> <p>Nid oes newid wedi bod yn y dechnoleg a ddefnyddir mewn termau gwasanaethau mynediad sydd wedi ei gysylltu â gwasanaethau cynnwys S4C.</p> <p>Darperir hefyd wasanaeth sain ddisgrifiad.</p>

Dyletswydd Statudol	Amcanion	Dyddiad gweithredu	Cyfrifoldeb	Adolygu
Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.	Sicrhau bod holl aelodau staff S4C yn ymwybodol o Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth S4C, a dyletswydd a rhwymedigaethau cyfreithiol S4C.	Parhaus	Adnoddau Dynol o dan oruchwyliaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol	<p>Mae polisi Cydraddoldeb Amrywiaeth yn cael ei roi i staff newydd yn ystod eu cyflwyniad i S4C. Mae'r polisi wedi ei gynnwys yn y llawlyfr staff sydd hefyd ar gael ar fewnwyd S4C.</p> <p>Cynigiwyd cwrs hyfforddiant Amrywiaeth a Chydraddoldeb gan ddarparwr allanol i holl staff S4C yn ystod Tachwedd/Rhagfyr 2016.</p>
	Darparu hyfforddiant priodol i staff ar ôl ystyried swydd-ddisgrifiadau penodol. Gwerthuso'r hyfforddiant er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ofynion ychwanegol yn codi o'r cyrsiau.	Fel y bo'r angen	Adnoddau Dynol o dan oruchwyliaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol	Roedd yn ofynnol i holl staff fynychu sesiynau hyfforddiant Amrywiaeth a Chydraddoldeb, bydd sesiynau pellach yn cael eu cynnig i staff yn ystod Mawrth 2017.

Dyletswydd Statudol	Amcanion	Dyddiad gweithredu	Cyfrifoldeb	Adolygu
	Sicrhau bod y sector cynhyrchu'n ymwybodol o ganllawiau arfer da wrth weithredu Ymrwymiad i Amrywiaeth S4C.	Ebrill 2016	Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol Cyfarwyddwr Cynnwys	Mae S4C mewn trafodaethau â TAC ynglŷn â'r ddarpariaeth o hyfforddiant mewn amryw o bynciau i'r sector yn cynnwys Amrywiaeth a Chydraddoldeb.
	Ystyried dewisiadau ar gyfer system monitro amrywiaeth newydd ar gyfer cynnwys S4C, a'i sefydlu.	Erbyn diwedd Rhagfyr 2016	Cyfarwyddwr Cynnwys	Mae S4C wedi cynnal nifer o drafodaethau gyda Silvermouse, y cwmni sy'n darparu monitro amrywiaeth ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y Deyrnas Unedig. Mae gan S4C anghenion technegol unigryw ac rydym yn gweithio i ddatrys rhain gyda CDN a Silvermouse cyn gynted â phosib.
	Sicrhau bod pawb yn gallu mynychu a chymryd rhan ym mhob cyfarfod cyhoeddus a digwyddiad a gynhelir gan S4C, ac ymgynghori ar hygyrchedd y digwyddiadau hyn.	Parhaus	Ysgrifennydd yr Awdurdod Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Mae hygyrchedd yn cael ei ystyried gan y tîm marchnata wrth drefnu digwyddiadau.

Dyletswydd Statudol	Amcanion	Dyddiad gweithredu	Cyfrifoldeb	Adolygu
	<p>Darparu hyfforddiant ychwanegol i aelodau staff sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd neu sy'n trefnu digwyddiadau, er mwyn sicrhau eu bod yn deall rhwymedigaethau'r ymrwymiad hwn.</p>	<p>Cyn 30.09.16 ac yn rheolaidd wedi hynny.</p>	<p>Adnoddau Dynol o dan oruchwyliaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol</p>	<p>Mae holl staff wedi derbyn hyfforddiant Amrywiaeth a Chydraddoldeb S4C, hyfforddiant Asesu Risg yn cynnwys asesu materion hygrychedd mewn ar gyfer â lleoliadau.</p> <p>Mae S4C yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer holl sesiynau Cwestiwn ag Ateb a gynhelir efo'r cyhoedd, ac yn sicrhau fod yr holl gynnwys a ddangosir yn y fath ddigwyddiadau yn cynnwys isdeitlau.</p>
	<p>Ystyried hygrychedd o ran Cystadlaethau S4C a sicrhau bod cystadlaethau mor hygrych â phosibl i'r cyhoedd.</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyfathrebu Cyfarwyddwr Cynnwys</p>	<p>Mae S4C yn ystyried priodoleb y modd o ymgeisio i bob cystadleuaeth gan ystyried cynulleidfa darged y gystadleuaeth berthnasol.</p>

Dyletswydd Statudol	Amcanion	Dyddiad gweithredu	Cyfrifoldeb	Adolygu
	Cyhoeddi, mabwysiadu ac adolygu canllawiau mynediad ar gyfer cyhoeddiadau S4C a'u cynnwys yng Nghanllawiau Brand S4C.	Parhaus	Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Mae Canllawiau Brand S4C yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd i gynnwys hygyrchedd.
	<p>Cynnal archwiliadau mynediad ar gyfer holl adeiladau S4C. Asesu unrhyw awgrymiadau, a gweithredu arnynt cyn belled ag y bo'n bosibl.</p> <p>Cynnal ac adolygu'n rheolaidd gronfa ddata barhaus o geisiadau am addasiadau rhesymol, pa mor hir y cymerodd i wneud y newid, y math o newid a'i effeithiolrwydd.</p>	Parhaus	Adnoddau Dynol Prif Swyddog Technolegol	<p>Mae S4C yn parhau i asesu mynediad mewn perthynas â'i hadeilad.</p> <p>Mae S4C wedi trefnu gosod rampiau mynediad wrth y brif fynedfeydd ym mlaen ac yng nghefn adeilad pencadlys S4C.</p> <p>Mae parcio i'r anabl wedi ei leoli yn agos i'r brif fynedfa ac allanfeydd pencadlys S4C.</p> <p>Mae cloeon anabl wedi eu gosod yn nhai bach anabl adeilad pencadlys S4C. Mae'r cloeon hyn yn rhan o gynllun cenedlaethol lle gellir defnyddio'r un allwedd i gael mynediad i unrhyw dŷ bach anabl ar</p>

Dyletswydd Statudol	Amcanion	Dyddiad gweithredu	Cyfrifoldeb	Adolygu
				<p>draws y wlad drwy ddefnyddio'r un system clo.</p> <p>Mae S4C yn cymryd camau i wella mynediad i rai ardaloedd mewnol o fewn ei phencadlys.</p> <p>Mae S4C yn adolygu ei sefyllfa mynediad yn fewnol pryd bynnag fyddent yn codi.</p> <p>Mae cofnod o geisiadau am newidiadau rhesymol yn cael eu cadw a'i chynnal.</p>
<p>Asesu effaith ac effeithlonrwydd Cynllun Gweithredu Amrywiaeth S4C ac adrodd ar y canlyniadau</p>	<p>Adolygu'r Cynllun Gweithredu Amrywiaeth ar gyfer 2016 - 2020 yn rheolaidd er mwyn monitro cynnydd S4C tuag at gyflawni'r amcanion.</p> <p>Cyhoeddi gwybodaeth am sut mae S4C yn symud tuag at gyflawni'r amcanion a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth.</p>	<p>Adolygu'n flynyddol.</p> <p>Yn flynyddol erbyn 31.03 bob blwyddyn</p>	<p>Awdurdod S4C gyda chefnogaeth y Bwrdd Strategol a Rheoli a'r Grŵp Gweithredol</p> <p>Awdurdod S4C gyda chefnogaeth y Bwrdd Strategol a Rheoli a'r Grŵp Gweithredol</p>	

Dyletswydd Statudol	Amcanion	Dyddiad gweithredu	Cyfrifoldeb	Adolygu
	<p>Ymgynghori â gwylwyr a defnyddwyr er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n adlewyrchu eu gofynion ac yn addasu iddynt, gan ddefnyddio'r canlyniadau ar gyfer cynlluniau gweithredu yn y dyfodol.</p>	<p>Cwestiynau arolwg Tracio</p>	<p>Ysgrifennydd yr Awdurdod Cyfarwyddwr Cyfathrebu</p>	<p>Mae S4C yn cynnal nosweithiau gwylwyr yn flynyddol sy'n rhoi cyfle i'r gwylwyr fynegi barn ar wasanaethau S4C.</p>